



Bwrdd Cymwysterau Cymru QWB41

Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2020

Yn Bresennol: David B Jones (Cadeirydd), Philip Blaker (Eitemau 6-12), Isabel Nisbet, Ellen Donovan,

David Jones (Eitemau 7-13), Caroline Burt, Jayne Woods, Anne Marie Duffy (Eitemau 7-13), Claire Morgan, Arun Midha (Eitemau 1-4 ac 11-13) a Robert Lloyd Griffiths (Eitemau 7 a 8)

Yn Bresennol: Jo Valentine (JV), Llywodraeth Cymru - Eitemau 1 - 8;

Jo Richards (JR), Cyfarwyddwr Gweithredol Rheoleiddio;

Alison Standfast (AS), Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Corfforaethol;

Leonie White (LW), Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu;

Claire Roberts (CR), Pennaeth Ymgysylltu Strategol;

Kay Powell (EKP), Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol;

Kerry Price (KP), Pennaeth Cyllid – Eitem 4 yn Unig;

Kerry Davies (KD), Pennaeth Safonau – Eitem 9 yn Unig;

Ymddiheuriadau: Robert Lloyd Griffiths a Cassy Taylor;

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

- 1.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
- 1.2. Llongyfarchwyd DJ gan y Cadeirydd ar ymuno ag Ofwat fel Aelod o'r Bwrdd a CM ar gael ei gadarnhau mewn rôl sylweddol fel Dirprwy Is-Ganghellor ym Mhrifysgol Caerdydd.
- 1.3. Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Robert Lloyd Griffiths ac Arun Midha, a fyddai ond yn bresennol am ran o'r cyfarfod, a Cassy Taylor.

2. Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 24 Medi 2020 a'r Log Camau Gweithredu

- 2.1. Cymeradwywyd cofnodion Cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 24 Medi 2020 fel cofnod gwir a chywir yn amodol ar dri gwelliant drafftio.
- 2.2. Nododd y Bwrdd mai'r dyddiad y byddai angen hysbysu Cymwysterau Cymru o'r bwriad i geisio adolygiad barnwrol oedd 17 Tachwedd, a oedd bellach wedi mynd heibio.
- 2.3. O ran camau gweithredu, nododd y Bwrdd fod yr Adroddiad Blynyddol a'r Adroddiad Cynnydd Cenedlaethau bellach wedi'i gyhoeddi.

Crynodeb o'r Camau Gweithredu:

I. Cymeradwyodd y Bwrdd y cofnodion yn amodol ar fân ddiwygiadau drafftio.

3. Adroddiad y Cadeirydd

- 3.1. Hysbysodd y Cadeirydd Aelodau'r Bwrdd fod y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i ymuno â'r Bwrdd wedi mynd heibio, a bod 106 o geisiadau wedi dod i law. Y cam recriwtio nesaf fyddai didoli'r ceisiadau, yna byddai'r panel yn gwneud argymhelliad i Lywodraeth Cymru ar ymgeiswyr i'w gwahodd i gael cyfweliad. Ychwanegodd EKP y byddai Aelodau newydd y Bwrdd yn cael dechrau graddol a'r bwriad oedd i gynifer ohonynt â phosibl ddod yn aelodau cysgodol i gael profiad drwy fynychu cyfarfodydd. Hefyd, roedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r broses ymsefydlu, yn enwedig gan y byddai angen gwneud hyn o bell oherwydd Covid-19.
- 3.2. Adroddodd y Cadeirydd ei fod ef a PB wedi mynd i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ("CYPE") i drafod trefniadau asesu ar gyfer 2021. Byddai'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol yn dychwelyd i'r CYPE cyn y Nadolig i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol.
- 3.3. Atgoffodd y Cadeirydd Aelodau'r Bwrdd fod Cyfarfod Bwrdd Eithriadol wedi'i gynnal yr wythnos ddiwethaf ynghylch y trefniadau ar gyfer dyfarnu cymwysterau yn haf 2021 ac anfonwyd llythyr ffurfiol wedyn at y Gweinidog Addysg. Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Gweinidog Addysg ar 16 Tachwedd.

4. Cyllid

- 4.1. Rhoddodd KP y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am sefyllfa ariannol Cymwysterau Cymru ar 31 Hydref 2020.
- 4.2. Ar hyn o bryd roedd Cymwysterau Cymru wedi gwario £4.055m yn erbyn cyllideb o £4.397m, gwahaniaeth o £341,000 (8%). Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Adnoddau yn gynharach yn y mis ond ers hynny roedd wedi'i diweddarau gan fod rhywfaint o wariant grant wedi bod erbyn hyn. Y rhagolwg ar gyfer gwariant rhwng nawr a diwedd y flwyddyn ariannol oedd £4.5m, a fyddai'n arwain at gyfanswm gwariant am y flwyddyn o £8.59m, a thanwariant o £387,000 yn erbyn ein cyllideb o £8.977m. Yn y rhagolwg hwn mae gwariant gwerth tua £670,000 sy'n parhau mewn perygl ac yn agored i newid, a disgwylir y bydd ein gwariant terfynol yn llai na'r rhagolwg presennol.
- 4.3. Nododd y Bwrdd a diolchodd i swyddogion am y wybodaeth a ddarparwyd, ac ailadroddodd eu hyder yn y systemau, y prosesau a'r rheolaethau sydd ar waith. Dywedwyd wrth y Bwrdd fod ARAC wedi cynnal adolygiad manwl i risg rheoli cyllideb ac wedi cael sicrwydd cadarnhaol. Roedd y Pwyllgor Adnoddau hefyd wedi edrych ar wariant yn fanwl ac roedd yn hyderus ynghylch sut yr oedd yn cael ei reoli. Tynnodd sylw at yr angen am dryloywder, yn enwedig yn y sefyllfa bresennol gan y gallai Llywodraeth Cymru geisio ailddyrrannu unrhyw arian nas cyfrifwyd. Dywedodd KP wrth

y Bwrdd ei fod wedi cyfarfod â Thimau Cyllid a Noddi Llywodraeth Cymru yr wythnos ddiwethaf a'u bod wedi cael diweddariad am sefyllfa ddiweddaraf Cymwysterau Cymru. Cadarnhaodd KP fod y risgiau gwariant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac y byddai'r Bwrdd a Llywodraeth Cymru yn cael eu diweddarw wrth i'r sefyllfa wario newid.

5. Prydles Swyddfa

- 5.1 Darparodd AS ddiweddariad ar drafodaethau ynglŷn â'r adolygiad rhent ac estyniad prydles posibl a gofynnodd am arweiniad ynghylch a ddylid ystyried estyniad prydles. Esboniodd AS fod y brydles ar swyddfa Cymwysterau Cymru wedi'i chytuno'n wreiddiol am 10 mlynedd a bod y rhent i fod i gael ei adolygu ar ôl 5 mlynedd. Gofynnwyd i Aelodau'r Bwrdd ystyried a ddylid archwilio estyniad i'r brydles 10 mlynedd bresennol o 5 mlynedd arall ai peidio, gan nodi y byddai estyniad yn gofyn am gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru gan y byddai'n cynrychioli gwariant atgyhoeddiadol.
- 5.2 Ystyriodd y Bwrdd a gofynnodd am ddarparu rhywfaint o wybodaeth ychwanegol yn y cyfarfod nesaf. Nododd Aelodau'r Bwrdd fod y staff yn hapus â threfniadau presennol y swyddfa. Nododd y Bwrdd y byddai'r ffordd y byddai Cymwysterau Cymru yn gweithredu yn newid fwy na thebyg unwaith y byddai'n ddiogel i ddychwelyd i'r swyddfa, ond roedd yr adeilad yn hyblyg iawn a gellid ei addasu.

6. Cymwys ar gyfer y Dyfodol

- 6.1. Cyflwynodd EG yr eitem a'r cais i'r Bwrdd adolygu a chynnig sylwadau ar y ddogfen ymgynghori ddrafft.
- 6.2. Llongyfarchodd yr Aelodau'r awduron ar ansawdd y papurau a gyflwynwyd a bod yr ymgynghoriad drafft mor gynhwysfawr.
- 6.3. Ystyriodd yr Aelodau'r ymgynghoriad a'r cynigion yn fanwl, gan nodi bod yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r ystod pwnc ac nid y dull asesu.
- 6.4. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod asesiad effaith rheoleiddiol o bob cynnig wedi'i gwblhau a'i ystyried yn y Bwrdd Prosiect Cymwys ar gyfer y Dyfodol. Mae asesiad o effaith gronol y cynigion hefyd yn cael ei gynnal. Mae Bwrdd Diwygio Cymwysterau Cymru wedi cytuno ar y dull asesu effaith. Bydd effeithiau posibl allweddol y cynigion yn cael eu nodi yn y brif ddogfen ymgynghori. Bydd yr asesiadau effaith rheoleiddiol unigol a gynhelir yn cael eu cynnal yn fewnol ond heb eu cyhoeddi. Bydd dogfen asesu effaith gyffredinol yn cael ei chyhoeddi unwaith y gwneir penderfyniadau yn dilyn yr ymgynghoriad.
- 6.5. Dywedwyd wrth yr Aelodau y bu trafodaeth bellach yn y Bwrdd Prosiect ac yn y Bwrdd Rheoli ar amseriad yr ymgynghoriad. Penderfynwyd y dylai'r ymgynghoriad barhau.
- 6.6. Cododd yr Aelodau'r angen i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac awgrymodd ymgysylltu â'r Senedd leuencid. Nodwyd hefyd bwysigrwydd gweithgarwch cyfathrebu cryf i gefnogi'r ymgynghoriad.

- 6.7. Manteisiodd yr Aelodau ar y cyfle i ofyn cwestiynau am feysydd pwnc penodol gan gynnwys Cymraeg ail iaith, hyfedredd rhifiadol gwyddoniaeth a chyfryngau digidol. Gofynnodd BM hefyd a ellid rhannu ymchwil Cymwysterau Cymru ar NEA gyda nhw.
- 6.8. Cytunodd yr Aelodau y dylai'r ymgynghoriad fynd rhagddo a nododd y byddai'n sensitif i'r cyd-destun yn gynnar yn 2021.

Crynodeb:

- I. Ystyriodd a chytunodd y Bwrdd ar y dull a gymerwyd o ddatblygu'r cynigion yn yr ymgynghoriad drafft, gan gynnwys dadansoddi cost a budd ac asesiadau effaith.
- II. Nododd y Bwrdd y dull arfaethedig o gynnal yr ymgynghoriad a chytunodd y dylai'r ymgynghoriad fynd rhagddo.
- III. Cytunodd y Bwrdd y dylai'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gymeradwyo'r ddogfen derfynol a'r asesiad effaith integredig cysylltiedig.

7. Llwybrau at Sicrhau Cymwysterau TGAU Cymeradwy Newydd

- 7.1. Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem a nododd y Bwrdd fod y papur yn gynhwysfawr ac wedi'i gyflwyno'n dda iawn.
- 7.2. Cyflwynodd CV yr eitem ac esboniodd fod y papur yn rhoi enghreifftiau manwl yn dilyn gwaith ar fodelu a gwerthuso'r opsiynau. Daeth y dadansoddiad i'r casgliad nad oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol o ran canlyniad rhwng y llwybrau. Dywedwyd wrth y Bwrdd bod y llwybr comisiynu yn fwy beichus ac y gellid defnyddio dulliau rheoleiddio eraill i reoli risgiau felly argymhellwyd i'r Bwrdd y dylid dilyn y llwybr anghyfyngedig. Byddai'r llwybr anghyfyngedig yn gymesur, yn effeithlon ac yn effeithiol i ddarparu'r gyfres newydd o gymwysterau.
- 7.3. Trafododd aelodau'r Bwrdd nifer o ystyriaethau a phenderfynodd y byddai cymwysterau TGAU cymeradwy newydd yn dilyn y llwybr cymeradwyo anghyfyngedig.
- 7.4. Trafododd y Bwrdd sut yr oedd y sefydliad yn parhau i adolygu iechyd ariannol cyrff dyfarnu.

Crynodeb:

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd y llwybr anghyfyngedig i sicrhau cymwysterau TGAU cymeradwy newydd.

8. Diweddariad y Prif Swyddog Gweithredol

- 8.1 Esboniodd PB, yn ystod y broses o gynllunio manwl ar gyfer QFF, ei fod wedi'i nodi y byddai angen adnoddau ychwanegol. Roedd y ffordd yr oedd adnoddau wedi'u defnyddio hyd yma hefyd wedi'i adolygu wrth iddi ddod yn amlwg bod Cymwysterau Cymru ei hun wedi gwneud mwy o waith nag a gynlluniwyd yn wreiddiol.

- 8.2 O ganlyniad, ac wrth i'r prosiect symud i'r cam nesaf, rhagwelwyd efallai y bydd angen ar Gymwysterau Cymru hyd at dair swydd cyfnod penodol ychwanegol yn y tîm. Byddai hyn yn cynnwys hyd at ddau Reolwr Cymwysterau ac un Swyddog Cymwysterau.
- 8.3 Edrychwyd ar y cyllid ar gyfer y swyddi hyn a gellid ymdrin ag ef drwy arian a ddyrannwyd eisoes i QFF. Ni fyddai angen gofyn am arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a'r rheswm dros y cais ar hyn o bryd oedd galluogi recriwtio ym mis Rhagfyr neu fis Ionawr pe bai cymeradwyaeth gan y Bwrdd gan y byddai angen y swyddi am fwy na dwy flynedd.
- 8.4 Awgrymodd Aelodau'r Bwrdd y dylid defnyddio traciwr i dynnu sylw at y cyfrif pan sefydlwyd Cymwysterau Cymru am y tro cyntaf, ynghyd â rhesymau pam yr oedd nifer y staff wedi cynyddu dros y blynyddoedd dilynol. Yn ogystal, dylid cael dealltwriaeth o oblygiadau hirdymor ceisiadau fel y rhain, megis y potensial i staff cyfnod penodol ddod yn barhaol. Cytunwyd y gallai'r Pwyllgor Adnoddau ystyried hyn. Cadarnhaodd AS, pan ddaeth swyddi cyfnod penodol i ben os nad oedd swyddi parhaol ar gael, y byddai gan y staff hynny hawl i gael eu diswyddo a bod darpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer hyn.
- 8.5 Gofynnodd Aelodau'r Bwrdd am drefniadau asesu ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yn 2021 a'r gofyniad parhaus am hyblygrwydd wrth asesu o ganlyniad i bandemig Covid-19. Cadarnhaodd PB y cafwyd trafodaethau rheolaidd gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys Penaethiaid colegau, Colegau Cymru, NtFW a Llywodraeth Cymru. Roedd y trafodaethau wedi canolbwyntio ar addasiadau i gymwysterau Cymreig a gymeradwywyd a gwaith Cymwysterau Cymru gyda rheoleiddwyr eraill ar gymwysterau tair gwlad.

Crynodeb:

- I. Ystyriodd a chymeradwyodd y Bwrdd y broses o recriwtio hyd at dair swydd cyfnod penodol ychwanegol ar gyfer y prosiect Cymwys ar gyfer y Dyfodol.

9. Cyfres Tachwedd 2020

- 9.1. Nododd y Bwrdd y diweddariad ar Gyfres Mis Tachwedd ar gyfer 2020 gan JR a bod yr arholiadau bellach wedi'u cynnal. Cafodd y Bwrdd ddiweddariad ar y dull o ymdrin â safonau a oedd yn cael eu cymryd.

10. Diweddariadau'r Pwyllgor

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

- 10.1. Esboniodd JW fod ARAC wedi cyfarfod ar 5 Tachwedd 2020 ac roedd un o'r prif eitemau a drafodwyd yn ymwneud â thendro'r System Cyllid ac Adnoddau Dynol, yr oedd ceisiadau bellach yn cael eu sgorio iddynt.

- 10.2 Cyflwynwyd tri Adroddiad Archwilio Mewnol hefyd yn y cyfarfod, derbyniwyd y rhain yn gadarnhaol a chadarnhaodd y tri lefel sylweddol o sicrwydd. Yn ogystal, nid oedd gan ddau o'r tri adroddiad unrhyw argymhellion, gyda'r trydydd adroddiad ond yn cynnwys nifer fach o argymhellion.
- 10.3 Cafodd y Pwyllgor raniad dwfn o ran rheoli cyllidebau dan arweiniad KP. Roedd hyn yn cynnwys trafodaeth fanwl ar risg, lle cytunwyd ar gynnig i gau Cofrestr Risg Covid-19 a rhannu'r risgiau sy'n weddill ymhlith y Cofrestrau Risg presennol. Cynigiodd y Cadeirydd hefyd fod ARAC wedi cynnal cyfarfod adolygu risg ar wahân cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd ac yn gwahodd Cadeiryddion Pwyllgorau eraill.

Pwyllgor Taliadau

- 10.4 Esboniodd CB fod y Pwyllgor Taliadau wedi cyfarfod ar 12 Tachwedd 2020 ac un o'r prif eitemau a drafodwyd oedd alinio cyflogau â Llywodraeth Cymru. Rhoddwyd papur manwl i'r Pwyllgor gan y Pennaeth Adnoddau Dynol a oedd yn esbonio pam yr oedd aliniad parhaus yn bwysig; cytunwyd yn unfrydol ar y rhesymau hyn.
- 10.5 Trafodwyd eitem ar hawliadau a threuliau'r Bwrdd. Cytunwyd bod angen canllawiau mwy ffurfiol mewn perthynas â'r hyn y dylid ei hawlio. Byddai cyfarfod arbennig nawr yn cael ei drefnu i drafod hyn ymhellach gan ddefnyddio data meincnodi a gasglwyd gan Gymwysterau Cymru.
- 10.6 Trafododd y pwyllgor hefyd gynllunio olyniaeth ac arfarnu perfformiad mewn sesiwn gaeedig.

Pwyllgor Adnoddau

- 10.7 Roedd y Pwyllgor Adnoddau wedi cyfarfod ar 22 Hydref ac wedi trafod adroddiad ar gyllid, perfformiad cynlluniau gweithredol ac adnoddau, yn ogystal â chael diweddariad ar Adnoddau Dynol.

Pwyllgor Rheoleiddio

- 10.8 Nid oedd y Pwyllgor Rheoleiddio wedi cyfarfod ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd.

11. Ymateb 2021 i Gyfarwyddyd Gweinidogol

- 11.1. Cyflwynodd JR yr eitem ac esboniodd fod pedwar mater i'r Bwrdd: ymateb Bwrdd Cymwysterau Cymru i'r Gyfarwyddyd Gweinidogol a dderbyniwyd ar 18 Tachwedd; penderfyniad mewn egwyddor i asesiad nad yw'n arholiad ("NEA"); penderfyniad mewn egwyddor ar gyfres arholiadau Ionawr 2021; a thrafodaeth ar egwyddorion i ategu'r gwaith o werthuso model asesu arfaethedig.
- 11.2. Nododd PB weithgarwch cyfredol a sefydlu'r Grŵp Cynghori ar Ddylunio a Chyflawni ("y DDAG").

- 11.3. Gofynnodd Aelodau'r Bwrdd a oedd y DDAG yn gwbl ymwybodol o rôl Cymwysterau Cymru yn y broses. Roedd rôl Cymwysterau Cymru o fewn y system wedi'i gwneud yn glir gan PB ar y dechrau. Roedd y DDAG hefyd bellach yn deall y gyfres o benderfyniadau y byddai eu cyngor yn mynd at y Gweinidog a allai wedyn roi Cyfarwyddyd i Gymwysterau Cymru ar bolisi i'r Bwrdd ei ystyried a rhoi sylw iddo wrth wneud ei benderfyniadau.
- 11.4. Ystyriodd y cyfarfod Gyfarwyddyd y Gweinidog ar 18 Tachwedd a thrafododd ei oblygiadau. Roedd penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â Safon Uwch yn golygu y byddai'n rhaid i Gymwysterau Cymru wedyn ystyried beth fyddai'n disodli arholiadau yn 2021 a gweithio gydag eraill i ystyried cynigion ar gyfer dull amgen. Cytunwyd y dylai'r ymateb i'r Gweinidog gynnwys barn ar raddau a aseswyd mewn canolfannau.
- 11.5. Roedd yr Aelodau o'r farn bod safbwyntiau amrywiol ynghylch a oedd dysgwyr am gael arholiadau ai peidio a bod disgwyliad cyhoeddus na fyddai arholiadau.
- 11.6. Cafwyd dadl ar y dewisiadau eraill ar gyfer dyfarniadau yn 2021. Cyfeiriwyd yr Aelodau at y prif nodau sy'n sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol ar gyfer diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru a hybu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.
- 11.7. Mewn ymateb i Gyfarwyddyd y Gweinidog, roedd cytundeb na ddylid cael arholiadau Safon Uwch yn 2021. Cytunodd y Bwrdd y gellid datblygu dull asesu a fyddai'n cyflawni canlyniadau sy'n seiliedig ar ganolfannau ond y dylid amlinellu'r materion sy'n ymwneud â hyn yn yr ymateb i'r Gweinidog.
- 11.8. Ystyriwyd cylch gwaith ac aelodaeth y DDAG. Trafodwyd cyfraniad Cymwysterau Cymru gan nad oedd Cymwysterau Cymru yn aelod ond ei fod wedi ymuno â'r grŵp fel sylwedydd. Cafodd gwaith y DDAG ei ystyried a'i drafod.
- 11.9. Symudodd JR ymlaen i NEAs yn nodi natur NEAs mewn cymwysterau cyfredol a oedd ar wahanol gamau. Gwnaeth CBAC rai addasiadau yn yr haf ac roedd addasiadau pellach wedi'u gwneud ym mis Tachwedd. Roedd Cymwysterau Cymru wedi ceisio barn gan gynnwys drwy grŵp cyfeirio'r penaethiaid, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) ac undebau'r athrawon. Roedd y DDAG wedi ystyried y mater hwn ac adroddodd Cadeirydd y DDAG wedyn fod cefnogaeth i barhad NEA. Gofynnwyd i'r Bwrdd ei farn ar gadw NEA. Dywedwyd wrth y Bwrdd fod NEA yn agwedd safonol a gynhelir gan CBAC ar fanylebau mewn asesiadau ac roedd aelodau gweithredol yn ei ystyried yn elfen y gellid parhau a byddai'n cael ei chadw fel nodwedd o fodel asesu yn y dyfodol. Cytunodd y Bwrdd i gynnwys NEA mewn model asesu yn y dyfodol.
- 11.10. Ystyriodd y Bwrdd gyfres arholiadau Ionawr 2021 yng ngoleuni cyhoeddiadau diweddar ar ganslo arholiadau yn haf 2021. Mae'r gyfres arholiadau yn cynnwys cymysgedd o arholiadau GQ a VQ. Cymerwyd barn rhanddeiliaid, a oedd yn amrywio ac yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Roedd y DDAG i fod i ystyried y gyfres y diwrnod yn dilyn y cyfarfod. Asesir y Dystysgrif Her Sgiliau yn llawn gan athrawon felly

nid oedd yn rhan o'r pryder ynghylch arholiadau. Amlinellwyd y canlynol ar gyfer cymwysterau sydd fel arfer yn cynnwys arholiadau yn y gyfres hon:

A. TGAU etifeddol – mae nifer fach o arholiadau ar gael, sy'n rhoi cyfle olaf i ddysgwyr ailsefyll y cymwysterau hyn. Ni fyddant yn ganlyniadau sy'n cario ymlaen i gyfnewid cymwysterau yng nghyfres yr haf.

B. Arholiadau cymhwyster galwedigaethol – mae rhai arholiadau lechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant lefel 2 a lefel 3 ar gael. Yn gyffredinol, roedd arholiadau VQ eraill a oedd ar gael ym mis Ionawr yn dal i fod i fynd rhagddynt ledled y DU, ar hyn o bryd. Fel arfer, gellir cofrestru ar gyfer amrywiaeth o fyfyrwyr ym mis Ionawr.

C. TGAU cymeradwy - roedd asesiadau uned mewn llenyddiaeth Saesneg, llenyddiaeth Gymraeg a TGCh ar gael. Cofnodwyd mwy o ddysgwyr ar gyfer yr arholiadau hyn na'r cymwysterau eraill. Mae heriau'n gysylltiedig â sut y gallai dysgwyr nad ydynt wedi'u cofrestru ar gyfer y gyfres hon gwblhau'r asesiadau cyfatebol yn yr haf a sut y gellid ymgorffori canlyniadau'r unedau hyn yn haf 2021.

Cytunodd y Bwrdd y dylai cyfres arholiadau mis Ionawr fynd rhagddi ar gyfer cymwysterau etifeddol a chymwysterau VQ. Ni fydd arholiadau uned TGAU cymeradwy ar gael.

- 11.11. Cyflwynodd JR yr egwyddorion drafft arfaethedig i ategu dyfarnu cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yn haf 2021. Cafodd y Bwrdd drafodaeth fer a chytunodd fod yr egwyddorion yn ddefnyddiol fel sail i ystyried cynigion ar gyfer trefniadau asesu. Trafodwyd y ddarpariaeth cydraddoldebau a nodwyd ei bod yn elfen bwysig o'r egwyddorion. Ychwanegodd PB y gallai fod ychwanegiad i fynd i'r afael â derbynioldeb y cyhoedd. Cytunwyd, oherwydd yr angen i weithredu'n gyflym, y byddai drafft diwygiedig yn cael ei anfon at aelodau'r Bwrdd ac y byddai'r egwyddorion yn cael eu cymeradwyo y tu allan i'r cyfarfod.

Camau gweithredu: Egwyddorion drafft diwygiedig i ategu dyfarnu cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yn haf 2021 i'w dosbarthu i'r Bwrdd i'w cymeradwyo.

Crynodeb:

- i. Penderfynodd y Bwrdd na fyddai arholiadau Safon Uwch yn haf 2021.
- ii. Cytunodd y Bwrdd y gellid datblygu dull asesu a fyddai'n cyflawni canlyniadau sy'n seiliedig ar ganolfannau ond y dylid amlinellu'r canlyniadau gyda hyn yn yr ymateb i'r Gweinidog.
- iii. Cytunodd y Bwrdd mewn egwyddor i gynnwys NEA mewn model asesu yn y dyfodol.
- iii. Cytunodd y Bwrdd y dylai cyfres arholiadau mis Ionawr fynd rhagddi ar gyfer cymwysterau etifeddol a chymwysterau VQ.
- iv. Roedd cefnogaeth i'r egwyddorion drafft fod yn sail i ddyfarnu cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yn haf 2021; byddai drafft diwygiedig yn cael ei

anfon at aelodau'r Bwrdd a byddai'r egwyddorion yn cael eu cymeradwyo y tu allan i'r cyfarfod.

12. Cyfathrebu a Rhanddeiliaid

- 12.1. Rhoddodd LW gyflwyniad i'r Bwrdd, a oedd yn amlinellu dull Cymwysterau Cymru o gyfathrebu ac ymgysylltu. Byddai'r ffocws ar flaenoriaethau sydd ar fin digwydd, ond byddai cynllun manylach yn cael ei ddsbarthu i'r aelodau ym mis Ionawr. Roedd yn bwysig bod y gwaith a wnaed yn effeithiol ac y byddai'n cyrraedd y cynulleidfaoedd cywir. Byddai risgiau'n cael eu hystyried yn fanwl fel y gallai Cymwysterau Cymru ddeall ei strategaeth ymateb. Byddai adrodd straeon digidol hefyd yn bwysig i ddatblygu a rhannu straeon gwych.
- 12.2 Nododd y Bwrdd y diweddariad Cyfathrebu a Rhanddeiliaid a oedd yn cyfeirio at adolygu ac adnewyddu'r Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu i adeiladu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau. Byddai angen i'r strategaeth fod yn glir ac yn gadarn i ddangos sut roedd Cymwysterau Cymru yn gwrando ac yn defnyddio barn ystod eang o randdeiliaid. Byddai Cymwysterau Cymru hefyd yn datblygu strategaeth cyfryngau cymdeithasol wedi'i diweddarau i ysgogi hyder y cyhoedd mewn cymwysterau.

13. Unrhyw Fater Arall

- 13.1. Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod.